

TRIBIWNLYS ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG CYMRU

TAAAC

NODIADAU O'R CYFARFODYDD GRWPIAU DEFNYDDWYR A GANLYN:

De Cymru	Dydd Iau 10 Tachwedd 2016 am 10:00am	Gwesty'r Copthorne, Caerdydd
Gogledd Cymru	Dydd Mercher 30 Tachwedd 2016 am 10:00am	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

1. Croeso - Rhiannon Walker, Llywydd

Estynnodd Llywydd y Tribiwnlys groeso i bawb. Eglurodd y Llywydd fod y Tribiwnlys wedi aros am ddatblygiadau gan Lywodraeth Cymru cyn y cyfarfod hwn, ond ei fod wedi penderfynu bod angen inni gwrdd â phawb gan fod amser yn mynd heibio. Eglurodd y Llywydd i'r grŵp ei bod yn awyddus iawn i glywed am eu safbwyntiau a'u profiadau neu unrhyw broblemau y gallent fod wedi'u profi ers y cyfarfod blaenorol.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r grŵp fod gennym rai pwyntiau i'w crybwyll, a allai fod o ddiddordeb i'r grŵp. Bu llawer o newidiadau, ac o ganlyniad i'r newidiadau niferus sy'n mynd rhagddynt, byddai'n ddefnyddiol iawn cael y Wybodaeth Ddiweddaraf am Faterion Cyfreithiol; cafwyd rhai achosion diddorol iawn yn ddiweddar sydd wedi amlygu pwyntiau o ddiddordeb.

2. Yn bresennol ac ymddiheuriadau

Fel y'u rhestrir yn Atodiad A

3. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Faterion Cyfreithiol – Mark Allen – Cadeirydd y Tribiwnlys

Darparodd Cadeirydd y Tribiwnlys y wybodaeth ddiweddaraf yn gryno am gyfraith achosion ddiweddar, a dosbarthwyd taflenni i'r grŵp.

Mae copi o'r cyflwyniad ar gael gan TAAAC ar gais.

Roedd y cyflwyniad yn ymdrin â chyfraith achosion ddiweddar a oedd yn ymwneud â Phenderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys am gostau a chostau cymharol, sef materion sy'n dod gerbron y Tribiwnlys drwy'r amser; Adran 9, osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. Darparwyd 3 astudiaeth achos: 2 o Dribiwnlys Lloegr ac 1 o Dribiwnlys Cymru.

Siaradodd Cadeirydd y Tribiwnlys am ffeithiau'r achosion a oedd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad.

Diben y cyflwyniad oedd rhoi gwybod i'r Grŵp fod cost darpariaeth yn bwysig. Yn aml, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu a fyddai adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd aneffeithlon neu a fyddai gwariant cyhoeddus afresymol. Pan fo'n debygol y bydd hyn yn fater perthnasol, dylai'r partïon ddarparu ffigurau manwl ac esboniadau llawn.

Mae'r Tribiwnlys yn dal i ymdrin ag achosion lle y rhoddir ffigurau ar lafar mewn gwrandawriad; awgrymodd Cadeirydd y Tribiwnlys nad yw hyn yn briodol, gan nad yw'n deg i'r parti arall ac nad oes dim tystiolaeth ar gael i ategu'r ffigurau. Gellir colli achosion os na ddarperir costau cywir; dyna pam y rhoddir y canllawiau yng nghamau cyntaf y broses o gofrestru'r apêl.

Pwynt arwyddocaol arall a oedd yn amlwg yn ystod y cyflwyniad oedd pa mor bwysig yw bod y partïon yn darparu safbwyntiau'r plentyn; mae'r Tribiwnlys o'r farn fod hon yn agwedd bwysig iawn ar y dystiolaeth a ddarperir.

Cafwyd trafodaeth hir yn y grŵp ar ôl i Gadeirydd y Tribiwnlys orffen siarad am yr astudiaeth achos olaf; gwnaed y sylwadau a ganlyn:

Oni ellid ystyried yr achos hwn yn achos o gamddefnyddio amser y Tribiwnlys?

Awgrymwyd mai mater i'r llys teulu oedd hwn, gan mai anghydfod rhieni oedd gan mwyaf.

Eglurodd y Llywydd yr anhawster o ran yr achos hwn gan nad oedd un rhiant yn dymuno mynd ar drywydd y mater drwy'r Tribiwnlys ond roedd y rhiant arall yn dymuno gwneud hynny. Roedd llawer iawn o dyndra yn yr achos.

Cyfeiriodd Cadeirydd y Tribiwnlys y grŵp at y sylw yn *Education Law Monitor* ynglŷn â'r achos hwn.

Gofynnodd y Llywydd a oedd gan unrhyw un gwestiynau neu sylwadau.

Cafwyd sylw gan y grŵp ei bod yn peri cryn bryder pan fo'r Tribiwnlys yn gwneud Cyfarwyddiadau ond na chydymffurfir â nhw.

Cafwyd trafodaethau pellach wedyn ynglŷn â'r mater o bartïon yn anwybyddu Cyfarwyddiadau'r Tribiwnlys.

Dywedodd y Llywydd wrth y grŵp ei bod yn teimlo'n gryf iawn ynghylch rhoi pwerau i'r Tribiwnlys. Dywedodd y Llywydd y byddai'n ymdrin yn llym iawn â phartïon nad ydynt yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau, ac mae'n bosibl y bydd yn ystyried eu gwahardd o'r gwrandawiadau yn y dyfodol.

Nododd y Llywydd hefyd ei bod yn teimlo'n gryf fod safbwyntiau'r plentyn yn bwysig iawn. Gofynnodd y Llywydd am sylwadau gan y grŵp am yr anawsterau y maent yn eu profi wrth geisio cael safbwyntiau'r Plentyn ynglŷn â'r achos. Eglurodd y Llywydd fod dulliau o gael y safbwyntiau hynny.

Cafwyd sylw gan aelod o'r grŵp fod defnyddio 'wiggit' yn ffordd o gael safbwyntiau'r plentyn; mae hyd yn oed gofyn ychydig o gwestiynau sylfaenol iawn yn ffordd dda o gael safbwyntiau'r plentyn, hyd yn oed pan fo'r plentyn yn anabl iawn. Gellid hefyd ddefnyddio cynrychiolydd o NYAS, os yw ar gael, i gael safbwyntiau'r plentyn.

Awgrymodd Cadeirydd y Tribiwnlys y gellid defnyddio eiriolwr i gael safbwyntiau'r plentyn, a rhybuddiodd na ddylid defnyddio tystiolaeth DVD, oherwydd gall wneud i'r broses fod yn anodd iawn i'w rheoli yn ystod y gwrandawriad.

Dychwelodd y Llywydd at bwnc costau; yn sgil yr adborth mae'n ymddangos ei fod yn broblem. Eglurodd y Llywydd fod achosion yn cael eu colli gan nad yw'r apelyddion a'r Awdurdodau Lleol yn cyflwyno'r dystiolaeth gywir, sy'n cyfyngu ar ddewisiadau panel y Tribiwnlys. Nododd y Llywydd fod rhieni'n talu ffioedd ysgolion annibynnol a chostau cysylltiedig eraill yn rheolaidd, eu bod yn gwybod am y costau a'u bod yn cyflwyno ffigurau. Pan nad yw'r ochr arall yn darparu dim ffigurau, rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu ar sail y dystiolaeth a ddarperir ar y diwrnod. Nid yw ansawdd y dystiolaeth honno'n ddigon da, oherwydd weithiau mae wedi'i chyflwyno dros y ffôn heb ddim i'w hategu. Mae hyn yn peri pryder ym mhobman, nid yng Nghymru yn unig.

Cafwyd cwestiwn gan y grŵp: a allai parti ofyn i'r Tribiwnlys roi Cyfarwyddyd i barti ddarparu costau cyn y gwrandawriad os nad ydynt i'w cael yn y dystiolaeth a ddarparwyd.

Ymatebodd y Llywydd gan ddweud y byddai'n ymdrin yn ffafriol â chais o'r fath, oherwydd mae unrhyw beth sy'n cynorthwyo'r Panel ar y diwrnod yn hwyluso proses y gwrandawriad ac yn creu llai o straen i bawb.

Cwestiwn: pa dystiolaeth sydd ar gael ynglŷn â symud plentyn o leoliad annibynnol i leoliad prif ffrwd, a'r pryder a achosir i'r plentyn; pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio.

Ymatebodd Cadeirydd y Tribiwnlys gan ddweud y byddai tystiolaeth rhieni'n cael ei hystyried, gan mai nhw sy'n adnabod y plentyn orau, ond gellir darparu tystiolaeth gan feddygon, seicolegwyr, ac yn y blaen. Ni all pawb ohonynt ddod i'r gwrandawriad, ond gellir hefyd ddarparu datganiadau ysgrifenedig wedi'u llofnodi a'u dyddio, ar ffurf tystiolaeth.

Sylw gan y Grŵp: mae perthnasoedd partion yn gallu chwalu drwy gydol proses y Tribiwnlys, ac mae'n anos i'r rhieni a'r ysgol gydweithio wedyn. Mae angen i'r partion fod yn bwyllog o ran eu dull o gasglu tystiolaeth i ddatblygu eu hachos.

Sylw – mae'n anodd iawn ceisio cael costau gan yr Awdurdod lechyd oherwydd ni allwch lwyddo i siarad â'r unigolyn sy'n ymdrin â'r costau.

Rhoddodd Cadeirydd y Tribiwnlys wybod i aelodau'r grŵp eu bod yn gallu gofyn am wŷs tystion neu am wrandawriad Cyfarwyddiadau neu gael y gweithiwr proffesiynol i fod yn bresennol mewn gwrandawriad costau i gael y ffigurau.

Awgrymodd Cadeirydd y Tribiwnlys i'r grŵp y dylid mynd ati i gael gafael ar y costau cyn gynted ag y bo modd, pan fônt yn gwybod y bydd gwrandawriad yn cael ei gynnal.

Diolchodd y Llywydd i Gadeirydd y Tribiwnlys am y cyflwyniad.

4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Anghenion Dysgu Ychwanegol – Diane Pritchard – Rheolwr Gwaith Achos TAAAC

Eglurodd y Llywydd i'r grŵp fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i gwblhau'r gwaith cyn y terfynau amser ac nad oedd yn gallu dod i Gyfarfodydd y Grwpiau Defnyddwyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf; mae wedi darparu cyflwyniad byr inni.

Darparodd Rheolwr Gwaith Achos TAAAC daflenni a oedd yn cynnwys cyflwyniad byr ynghylch Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru – mae'r fideo byr sy'n cyd-fynd â'r daflen ar gael yn <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/additional-learning-needs-reform/?skip=1&lang=cy>. Mae copi o'r daflen ar gael gan TAAAC ar gais.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod inni ei bod yn bwriadu trefnu digwyddiadau eraill i ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn y flwyddyn newydd.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r grŵp fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd hawliau apelio clir yn cael eu diogelu.

Dywedodd y Llywydd fod llawer o faterion i ddod o ran hawliau i apelio ar gyfer y rhai sy'n hŷn na 16 oed, ac ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Dywedodd y Llywydd, os oes gan unrhyw un bryderon penodol am unrhyw beth, y dylent ymdrin â nhw yn awr, a hynny drwy ysgrifennu at Aelodau Cynulliad lleol cyn gynted ag y bo modd, gan fod hynny'n bwysig. Fel arall, gallant fynegi unrhyw bryderon a all fod ganddynt wrth TAAAC, a byddwn yn bwrw ymlaen â nhw. Mae gennym Weinidog Addysg newydd; bydd y Llywydd yn trefnu cyfarfod yn y flwyddyn newydd, a bydd yn cyflwyno unrhyw faterion i'r Gweinidog.

Cwestiwn – beth yw'r amserlenni o ran y Bil newydd?

Ymatebodd y Llywydd drwy roi gwybod i'r grŵp fod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau y bydd wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2016.

Cwestiwn – Yn yr ymgynghoriad, cafwyd llawer o adborth o bob safbwynt ynglŷn â'r broses o adnabod ac asesu, oherwydd mae'n ymddangos bod y system asesu statudol wedi'i dileu'n gyfan gwbl, neu'r cyfnod ymgynghori o leiaf; a oes unrhyw newid yn y cyswllt hwnnw?

Ymateb y Llywydd oedd: nac oes, hyd y gwn i; rwyf yn meddwl y bydd athrawon yn yr ysgol yn adnabod a bydd ganddynt Gynllun Datblygu Unigol.

Cwestiwn – A ydym yn disgwyl y bydd apeliadau niferus ynglŷn â phob un dim y mae rhieni neu'r Awdurdod Lleol am ei gynnwys?

Y Llywydd – Ni fyddaf yn gwybod tan imi weld y fformat neu'r Cynllun Datblygu Unigol, ond nid wyf wedi gweld hynny; rwyf yn rhan o drafodaethau am y pwnc hwn yn awr.

Sylw gan y grŵp: yn Lloegr, bu cynnydd o 13% yn y 2 flynedd gyntaf, ac yna cafwyd gostyngiad, ond yn y chwarter diwethaf maent wedi cynyddu eto, a hynny 29%.

Cafwyd trafodaeth am rôl y Seicolegydd Addysgol o ran y diwygiadau.

Cwestiwn – Beth yw amserlen y Cod Ymarfer?

Dywedodd y Llywydd y disgwylir y bydd hynny tua'r haf yn 2017.

5. Gwybodaeth Ddiweddaraf y Tribiwnlys – Rhiannon Walker – Llywydd y Tribiwnlys

Estynnodd y Llywydd groeso i Kelly Helliwel, ein haelod staff newydd. Rhoddodd y Llywydd wybod i'r grŵp ein bod hefyd wedi penodi 3 Aelod Lleyg arbenigol newydd i'r Tribiwnlys, sef Catherine Pape, Natalie O'Neill a Rhys Wyn Parri.

Gorchymynion Cydsynio – Rhoddodd y Llywydd wybod i'r grŵp fod y Gorchymynion Cydsynio'n gweithredu'n dda, a'u bod yn cynorthwyo'r ddau barti, gan eu bod yn gwybod yr hyn y cytunwyd arno; mae'r ffaith bod datganiad cytunedig yn destun Gorchymyn yn helpu i atal dadleuon yn ddiweddarach. Ychwanegodd y Llywydd fod cais wedi'i gyflwyno'n ddiweddar am gael ymestyn cyfnod datganiad achos oherwydd roeddent yn meddwl y byddai'r apêl yn cael ei ddatrys. Cytunodd y Llywydd â'r estyniad ond cyfarwyddodd y byddant yn dod yn ôl i'r Tribiwnlys i gael Gorchymyn, oherwydd mater i'r Tribiwnlys yw hwn o hyd; byddwn yn darparu Gorchymyn Cydsynio ynglŷn â'r hyn y cytunwyd arno.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r grŵp mai proses syml iawn yw hon, sef cysylltu â TAAAC, a fydd wedyn yn trefnu'r Gorchymyn Cydsynio ar ôl cael y datganiad diwygiedig y cytunwyd arno. Yna, bydd y Tribiwnlys yn cyflwyno'r Gorchymyn Cydsynio i bob parti.

Gwrandawiadau Papur – Awgrymodd y Llywydd y dylai pob Apêl ynghylch Gwrthod Asesu fod yn Wrandawiad Papur oni bai ei fod yn troi'n gymhleth. Rhoddodd y Llywydd wybod i'r grŵp ei bod am i'r drefn hon gael ei gweithredu o fewn y 12 mis nesaf.

Gofynnodd y Llywydd i'r Awdurdodau Lleol anfon eu barn am Wrandawiadau Papur. Nododd cynrychiolydd un Awdurdod Lleol ei fod wedi cael Gwrandawiad Papur yn ddiweddar a'i fod yn cytuno ei bod yn broses lawer mwy hwylus a oedd yn arbed amser ac arian i bawb a oedd yn rhan ohoni.

Bu'r Llywydd yn trafod mater gorfodi â Llywodraeth Cymru. Yr hyn a gynigir yw ei bod yn bwriadu i TAAAC anfon copïau o bob Penderfyniad; bydd angen inni hysbysu pob rhiant am hyn oherwydd materion diogelu data, er mwyn sicrhau ei bod yn iawn rhannu'r wybodaeth. Y farn yw, os yw parti'n credu nad yw'r Gorchymyn y mae'r Tribiwnlys wedi'i wneud yn cael ei ddilyn, mai'r broses bresennol yw bod angen ichi gysylltu â Llywodraeth Cymru, dod o hyd i'r unigolyn cywir, ac yna egluro'r sefyllfa i'r unigolyn hwnnw, ac anfon y papurau ato. Nid yw'n broses foddhaol iawn.

Mae'r Llywydd wedi cynnig i Lywodraeth Cymru y dylai parti ddod yn ôl i TAAAC os bydd o'r farn na chydymffurfir â'r Gorchymyn; oherwydd bod gan TAAAC yr holl bapurau eisoes, byddai'n creu llai o straen a llai o waith. Bydd TAAAC yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn cynnal gwrandawiad, o bosibl, os bydd angen, a bydd wedyn yn cyflwyno'r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru wedyn yn gallu penderfynu ynglŷn â'r camau i'w cymryd er mwyn bwrw ymlaen â'r mater. Byddai hon yn system gyflymach, symlach a llawer mwy effeithlon i unrhyw sy'n anfon ar Orchymyn na chydymffurfir ag ef. Byddwn yn rhoi gwybod i bawb pan gytunwyd ar hynny.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Grŵp fod rhai datganiadau achos yn dod yn anodd iawn i'w rheoli oherwydd nifer fawr y dogfennau sy'n cael eu cyflwyno, ac yn arbennig ddogfennau a ailadroddir. Mae rhai pecynnau sy'n cael eu rhoi i bartïon yn cynnwys 1200 o dudalennau neu fwy. Mae pawb sy'n ymwneud â'r mater yn gorfod neilltuo llawer o amser i hynny. Felly, y teimlad yw bod angen gwneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa. Rhoddodd y Llywydd wybod ein bod yn ystyried pennu terfyn o 300 o dudalennau i bob parti o ran y pecynnau. Dylai'r parti'on allu dweud yr hyn y mae angen ei ddweud o fewn y tudalennau hynny. Byddwn yn ystyried caniatáu tudalennau ychwanegol mewn amgylchiadau eithriadol. Dywedodd y Llywydd y dylai'r Awdurdod Lleol ddarparu'r dogfennau creiddiol oherwydd bydd ganddo'r rhain yn electronig. Drwy wneud hynny, bydd ein

gwrandawiadau'n llawer gwell oherwydd bydd yn lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio pan fo'r ddau barti wedi cyflwyno'r un ddogfen a'i thudalennau â rhifau gwahanol arnynt yn y Pecyn. Nid yw'r drefn honno ar waith ar hyn o bryd, ac felly hoffai'r Llywydd ddod â'r pwnc i sylw'r Grŵp Defnyddwyr er mwyn rhoi cyfle i bawb sy'n ymwneud â'r mater feddwl amdano ac anfon unrhyw safbwyntiau at TAAAC cyn y Nadolig.

Awgrymwyd y gellid ychwanegu'r wybodaeth a'r dyddiadau ar gyfer y broses o Awdurdodau Lleol yn cyflwyno'r dogfennau creiddiol, os yw'r Awdurdodau Lleol yn gwrthwynebu'r apêl, at y llythyrau Cofrestru. Byddai hyn wedyn yn rhoi gwybod i'r apelyddion pa ddogfennau nad oedd angen iddynt eu darparu i'r Tribiwnlys, yn ogystal â rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol ar ba ddyddiad yr oedd angen iddo anfon y dogfennau creiddiol at y Tribiwnlys.

Awgrymodd y Llywydd hefyd y dylai'r Awdurdod Lleol anfon y Datganiad, fel nad oes angen i'r apelyddion ei gyflenwi.

Pan fyddwn wedi cael sylwadau gan bawb, byddwn yn penderfynu pa ddogfennau yw'r dogfennau creiddiol sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r datganiadau achos.

Cafwyd sylw gan aelod o TAAAC i atgoffa pawb nad yw'r Panel yn eistedd er mwyn barnu ynghylch achosion blaenorol gan Awdurdod Lleol.

Soniodd Aelod o Banel TAAAC fod problem o ran defnyddio ffontiau bach iawn mewn dogfennau creiddiol, sef adroddiadau gan weithwyr proffesiynol; nid yw hyn o gymorth i unrhyw un nad yw ei olwg yn dda ac sy'n ceisio darllen y dogfennau hyn. Weithiau mae dogfennau sydd wedi'u llungopïo'n wael yn creu problem hefyd.

Soniodd y Llywydd wrth y grŵp fod y Tribiwnlys, wrth gyflwyno Cyfarwyddiadau a Phenderfyniadau, yn defnyddio ffont Ariel maint 12, gan nodi Ariel maint 14 mewn penawdau.

Gwnaed sylw ynglŷn â darllen Hanfodol, a chafwyd trafodaeth fer am hynny wedyn.

Dywedodd y Llywydd fod rhwymedigaeth arnom, pan fyddwn yn cael Pecyn, i ddarllen y cyfan ac ni allwn ddewis a dethol pa ddogfennau i'w darllen.

Er gwybodaeth i'r Grŵp, mae ein Safonau Cymraeg wedi dod i law; cyflwynwyd ein hysbysiad cydymffurfio priodol inni ar 30 Medi 2016. Roedd y Llywydd yn falch o roi gwybod mai ychydig iawn o wahaniaeth a gafwyd; roeddem yn cyd-fynd â bwriad yr holl beth i raddau helaeth iawn ac roedd yn rhaid inni gydymffurfio â'r Safonau erbyn 30 Mawrth 2017. Rydym ymhell ar y blaen o ran hynny.

6. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ystadegau TAAAC – Diane Pritchard, Rheolwr Gwaith Achos

Cyflwynodd y Rheolwr Gwaith Achos y wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp am ystadegau TAAAC ynghylch y 12 mis diwethaf. Mae copi o'r cyflwyniad ar gael gan TAAAC ar gais.

Diolchodd y Llywydd i bawb am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

ATODIAD A TAAAC (16)01

TRIBIWNLYS AAA CYMRU

NODIADAU CRYNO O GYFARFODYDD GRWPIAU DEFNYDDWYR RHANBARTHOL

YN BRESENNOL:

Claire Bridges	Cyngor Dinas Caerdydd	Rhanbarth De Cymru
Deborah Davies	Cyngor Dinas Caerdydd	Rhanbarth De Cymru
Michael Nelson	Cyngor Dinas Caerdydd	Rhanbarth De Cymru
Rebecca Williams	Cyngor Dinas Caerdydd	Rhanbarth De Cymru
Elinor Williams	Cyngor Dinas Caerdydd	Rhanbarth De Cymru
Jane Smith	NDCS Cymru	Rhanbarth De Cymru
Kay Poultney	Cyngor Bro Morgannwg	Rhanbarth De Cymru
Jane Werrett	Cyngor Bro Morgannwg	Rhanbarth De Cymru
Rachel Vaughan – Jones	Cyngor Bro Morgannwg	Rhanbarth De Cymru
Gill Toon	Cyngor Bro Morgannwg	Rhanbarth De Cymru
Gill Smith	Cyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Blaenau Gwent	Rhanbarth De Cymru
Tracy Tucker	CBS Torfaen	Rhanbarth De Cymru
Alyson Costa	CBS Torfaen	Rhanbarth De Cymru

Jenny Archer	Eiriolwr Annibynnol	Rhanbarth De Cymru
Nigel Pugh	Education Advocacy	Rhanbarth De Cymru
Mary Greening	Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP)	Rhanbarth De Cymru
Jane Jones	CBS Caerffili	Rhanbarth De Cymru
Angharad Behnan	Cyngor Sir Ceredigion	Rhanbarth De Cymru
Gerwyn Loosley	Cyngor Sir Ceredigion	Rhanbarth De Cymru
Derek Tilley	CEREBRA	Rhanbarth De Cymru
Amanda Daniels	SNAP Cymru	Rhanbarth De Cymru
Carol Davies	Eiriolwr Annibynnol	Rhanbarth De Cymru
Lisa Carter	CBS Rhondda Cynon Taf	Rhanbarth De Cymru

Ffion Edwards Ellis	Cyngor Gwynedd	Rhanbarth Gogledd Cymru
Ian Davies	CBS Conwy	Rhanbarth Gogledd Cymru
Zoe Holman	Partneriaeth Rhieni CAB	Rhanbarth Gogledd Cymru
Einir Thomas	Awdurdod Lleol Ynys Môn	Rhanbarth Gogledd Cymru
Sally Richard Simpson	Awdurdod Lleol Wrecsam	Rhanbarth Gogledd Cymru
Natalie Jones	Awdurdod Lleol Wrecsam	Rhanbarth Gogledd Cymru

TRIBIWNLYS AAA CYMRU

Rhiannon Walker	Llywydd y Tribiwnlys
Mark Allen	Cadeirydd y Tribiwnlys
Catrin Lewis	Aelod Lleyg o'r Tribiwnlys
Gwyn Griffiths	Aelod Lleyg o'r Tribiwnlys
Norman Donovan	Aelod Lleyg o'r Tribiwnlys
Andrew Wilson	Aelod Lleyg o'r Tribiwnlys
Sandra Boyle	Aelod Lleyg o'r Tribiwnlys
Rhys Wyn Parri	Aelod Lleyg o'r Tribiwnlys
Diane Pritchard	Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys
Kelly Helliwell	Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys

Ymddiheuriadau

Huw Davies	Estyn
Ceri Bater	Awdurdod Lleol Sir Fynwy
Janette Carr	AFASIC Cymru
Sue Pink	Rhiant
Jil Timothy	Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
Vicky Hancock	Awdurdod Lleol Sir y Fflint